# DEWI'R DIOGYN YN MYND YN ÔL I'R YSGOL





Ysgrifennwyd a Darluniwyd gan Rachel Cook

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl

# DEWI'R DIOGYN YN MYND YN ÔL I'R YSGOL





**Dewi'r Diogyn yn mynd yn ôl i'r ysgol**

Mae'r adnodd hwn am ddim a gellir ei
lawrlwytho'n ddiderfyn a
rhoddir hawl i lawrlwytho'r llyfr hwn os nad
yw cynnwys y testun
a'r delweddau'n cael eu newid a bod y
ffynhonnell yn cael ei
chydnabod.

**©2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl**

Mae Dewi'r diogyn yn byw mewn coeden i fyny fry,

gyda'i fam a'i dad, sydd yn deulu o dri!






Mae Dewi wedi bod gartref ers wythnosau di-ri',

achos y Coronafeirws, doedd dim modd mynd

ymhell o'r tŷ.

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl





Nawr Mam a Dad yw’r athrawon, sillafu, gwneud symiau.
Mae Dewi'n gweld eisiau ei ffrindiau'n fawr,
a dim ond ar y ffôn y gallant gael sgyrsiau.




Dydyn nhw ddim wedi gadael y goeden ers wythnosau, dim ond i fynd am dro,
yna, un diwrnod, dywedodd Mam wrth Dewi, "Dere i eistedd a sgwrsio."

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl 

"Mae'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau yn dweud ei bod hi'n ddiogel i ni fynd allan o'n ffiniau. Byddwn ni'n mynd yn ôl i'r ysgol fory."

"NAAAAAAAAA! NAAAAAAAAA!" llefodd Dewi ar hyd a lled y tŷ.






Yn sydyn, teimlodd Dewi'n dost ac roedd tu fewn ei fola'n cosi.

"Falle mai'r feirws yw e? Byddai'n well i mi aros gartre gyda Mami."

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl 

Esboniodd Dad mai nerfau oedd yn gwneud i'w fola fod yn dost o hyd.
Dim ond pili-palod oedd yno'n fwrlwm i gyd.

.





Y noson honno roedd ei ben yn llawn cwestiynau a doedd Dewi ddim yn gallu cysgu.
Beth os nad yw fy ffrindiau'n fy nghofio i?
Beth os yw'r feirws yn lledu?

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl 

Beth os ydw i'n anghofio sut i wneud symiau, neu sut i sillafu?

Beth os yw fy athrawes yn meddwl mod i’n dwp ac wedi drysu?

Beth os yw Mam a Dad yn anghofio amdana i pan fydda i yn yr ysgol?

Beth os na fydda i'n cŵl ac na fydd neb am chwarae â fi pan af yn ôl?






Roedd Dewi'n araf iawn y bore canlynol.

Doedd e ddim am godi a mynd i'r ysgol.

Roedd hi'n ddiwrnod braf, mor ddisglair a heulog.


Gwnaeth Dad hoff frecwast Dewi, sef morgrug a mêl gludiog.

.

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl

Roedd Mam wedi paratoi ei focs bwyd oedd â'i enw arno,
a dywedodd, "Bydd dy ffrindiau i gyd hefyd yn gofidio.
Rydyn ni'n gwybod dy fod ti'n poeni ac mae hynny'n berffaith iawn,
byddi di'n teimlo'n well wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen."






Dywedodd Dad, "Efallai y bydd yr ysgol ychydig yn wahanol ac yn od,
ond byddi di'n gyfarwydd â chymaint o bethau'n barod.
Bydd dy athrawes yn gallu dy helpu di,
a phan fydd y dydd ar ben byddi di'n dod adref at dy fam a fi."

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl

Cerddodd y tri i'r ysgol gyda'i gilydd a phan gyrhaeddon nhw,
dyna lle roedd athrawes Dewi'n aros yn yr un man ag arfer yn galw ei enw.
Â gwên fawr ar ei hwyneb, cododd ei llaw arno,
ond roedd ofn ar Dewi ac edrychodd i lawr ar ei ddwylo.






Penliniodd Mam wrth ei ochr a rhoi cwtsh mawr iddo,
gan sibrwd yn dawel, “Fe fydd popeth yn iawn, rydw i'n addo."
Ymlaciodd yn ei breichiau ac roedd e'n teimlo'n llai ofnus,
ac i ffwrdd ag ef i lawr y llwybr gan godi ei law arni'n hapus.

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl

Pan ganodd y gloch, dechreuodd yr ysgol,

a gwelodd Dewi ei ffrind gorau, Deiniol

Sibrydodd Deiniol,

"Dydw i ddim yn gwybod pam, ond mae bola tost arna i."

Dywedodd Dewi'n dyner,

"Paid â phoeni Deiniol, dim ond pili-pala sydd yno'n troelli."







Rhoddodd Deiniol wên anferth a dweud,

"O, RYDW I WEDI GWELD DY EISIAU DI!"

Roedd y gwaith ysgol yn rhwydd, doedd dim problemau mawr.

Pan ddaeth hi'n amser egwyl a daeth ffrindiau Dewi i chwarae,

hedfanodd yr holl bili-palod i fyny i'r cymylau.



© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl

Wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen, cafodd Dewi gymaint o sbri.

Roedd e bron ag anghofio cymaint roedd yn gweld eisiau Mami.

Cyn pen dim, roedd y diwrnod ysgol wedi dod i ben.

Ond doedd Dewi ddim am ffarwelio â'i ffrindiau llawen.





Pan welodd ei fam, rhedodd tuag ati er mwyn cael cwtsh mawr,

gan swatio'i ben yn ei ffwr meddal yn hapus yn awr.

Yr holl ffordd adref dywedodd Dewi wrthi am ei hanes.

Roedd ei fam mor falch iddo gael cymaint o hwyl gyda'i ffrindiau a'i athrawes.

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl







Y noson honno gorweddodd Dewi ar ei glustog llawn dail,

a meddyliodd i'w hun,

"Alla i ddim aros tan fory – diwrnod arall heb ei ail."



© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl 

**Ysgrifennwyd y stori hon ar gyfer yr holl blant anhygoel sydd wedi gweld eu bywydau bach ar chwâl yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.**

Gall plant, yn union fel oedolion, fod yn ofidus neu'n orbryderus am ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y pandemig Coronafeirws. Mae'r stori fer hon am Dewi'r Diogyn yn wynebu ei ofidiau am ddychwelyd i'r ysgol yn stori annwyl i'w darllen gyda'ch plentyn ac mae'n cynnig cyfleoedd i drafod eu teimladau, gan ganolbwyntio ar yr elfennau cyfarwydd yng nghanol yr holl bethau anhysbys.

*Ysgrifennwyd a Darluniwyd gan Rachel Cook.*

© 2020 Rachel Cook. Cedwir pob hawl